| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 20 Tachwedd 2024 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau, Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Awdur yr adroddiad** | Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Teitl** | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/26–2027/28. |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/26–2027/28.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhan o rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw ceisio sicrwydd bod gan y Cyngor brosesau effeithiol a chadarn ar waith i osod cyllidebau cytbwys. Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am:

- y strategaeth gyllidebol arfaethedig i osod y gyllideb ar gyfer 2025/26 fel y nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC)
- rhagamcanion ariannol ar gyfer y cyfnod o 3 blynedd o 2025/26 i 2027/28 yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) lefel uchel
- cynnydd ar gynigion am arbedion sy'n cael eu datblygu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi adborth i'r Cabinet ar y diweddariadau a restrir yn 2.1 uchod.

# 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gael diweddariadau rheolaidd am y SATC a CATC 2025/26–2027/28 drwy gydol y flwyddyn. Mae diweddariadau wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor ym mis Ebrill a mis Gorffennaf, gan roi adborth i'r Cabinet.

## Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26–2027/28 – Atodiadau 1, 2 a 3

4.2. Mae Atodiad 1 yn nodi'r rhagamcanion cyllideb cyfredol ar gyfer 2025/26–2027/28 ynghyd â'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r rhagamcanion. Wrth i ni symud yn nes at bennu ein cyllideb ar gyfer 2025/26 mae pwysau costau wedi eu hadnewyddu i adlewyrchu gwybodaeth gyfredol sydd ar gael yn y CATC. Mae'r tabl yn parhau i gynnwys ystod o ragdybiaethau i ddarparu amcangyfrif isel, canolig ac uchel o gostau ar gyfer pob pwysau, gan ddangos ansicrwydd y ffigurau a'r gwaith sy'n cael ei wneud i barhau i adnewyddu a mireinio'r rhagamcanion hyn dros y misoedd nesaf. Mae effaith y cynnydd a amcangyfrifir yn Nhreth y Cyngor a chyllid gan Lywodraeth Cymru hefyd wedi ei chynnwys yn y CATC.

4.3. Atodiad 3 yw'r SATC sy'n nodi dull strategol y Cyngor o reoli ei gyllid ac yn amlinellu rhai o'r problemau ariannol a fydd yn wynebu'r Cyngor dros y tair blynedd nesaf.

4.4. Dyma'r trydydd cyhoeddiad o'r dogfennau hyn ac mae wedi ei lunio gyda'r data a'r wybodaeth oedd ar gael ar ddechrau mis Hydref 2024 (cyn cyhoeddiadau cyllideb hydref 2024 Llywodraeth y DU). Bydd y dogfennau hyn yn parhau i gael eu diweddaru fel y nodir yn y SATC wrth i'r Cyngor baratoi i bennu ei gyllideb ar gyfer 2025/26 yn Chwefror 2025.

4.5. Mae'r Cyngor wedi wynebu her ariannol sylweddol wrth osod ei gyllideb ar gyfer 2024/25, a fydd yn parhau yn y tymor canolig. Mae hyn oherwydd cyfuniad o ddiffyg cynnydd mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru (rhagdybiaeth am y tro), effaith barhaus chwyddiant a chynnydd yn y galw am wasanaethau, yn ogystal â chymhlethdod yr angen amdanynt. Ni ddylid bychanu maint yr her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Dyma'r pwyntiau allweddol:

- Mae'n anodd amcangyfrif y pwysau ond ar hyn o bryd mae’n amrywio rhwng £12 miliwn a £24 miliwn yn 2025/26 gydag amrediad canolig o £18 miliwn. Rhagwelir amrediadau tebyg ar gyfer 2026/27 a 2027/28.
- Ni roddodd setliad cyllid 2024/25 gan Lywodraeth Cymru unrhyw arwydd o gyllid yn y dyfodol fel y mae wedi’i wneud dros y 2 flynedd ddiwethaf. Mae cyllid yn y dyfodol o fewn y CATC yn seiliedig ar asesiadau gan dîm Dadansoddi Cyllid Cymru, gyda gostyngiadau ychydig yn negyddol yn niffyg unrhyw beth arall.
- Mae’r rhagdybiaethau a wneir ynghylch cynnydd i Dreth y Cyngor yn amrywio o 6% i 12% ar gyfer 2025/26 a chyfartaledd hirdymor o 5.5% wedi hynny ar gyfer y ddwy flynedd. Mae’n bwysig nodi nad oes unrhyw benderfyniadau ynglŷn â lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2025/26 wedi eu gwneud eto. Mae hwn yn fater y bydd y Cyngor yn penderfynu arno yn y cyfarfod ym mis Chwefror 2025. Mae rhagdybiaeth ganolig am gynnydd o 9% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2025/26 yn rhoi £6.8 miliwn ychwanegol, sydd yn mynd i’r afael â thraean yn unig o’r bwlch cyllid cyfredol.
- Mae’r Cyngor wedi bod yn cynllunio at weithredu i ostwng y gwariant net disgwyliedig yn 2025/26 yn sylweddol er mwyn gallu gosod cyllideb gytbwys fel y nodir yn y SATC.
- Gyda rhagolygon presennol y pwysau costau, rhagdybiaethau presennol am gyllid gan LIC a’r rhagdybiaeth am y tro ar gyfer Treth y Cyngor ar 9%, mae’r bwlch sy’n weddill yn y gyllideb, sef £12 miliwn, yn sylweddol.

4.6. Mae newidiadau a wnaed i’r SATC wedi’u nodi’n felyn yn Atodiad 3 er hwylustod i aelodau’r Pwyllgor ac maent wedi’u crynhoi isod;

- Mae pwysau ar y gyllideb wedi eu diweddaru i gynnwys y rhagolygon diweddaraf
- Risgiau – diweddariadau ar ddyfarniadau cyflog
- Mae’r adran ar ffioedd a thaliadau wedi ei diweddaru ynghyd â’r adran ar gyfalaf.

4.7. Fel y nodir yn y SATC bydd angen i’r dull o osod cyllidebau cytbwys dros y blynyddoedd nesaf ganfod arbedion a buddsoddi mewn prosiectau trawsnewidiol. Er mwyn cyflawni arbedion yn 2025/26, cyhoeddwyd targedau canrannol ar gyfer

gostyngiadau mewn gwasanaethau, ac mae'r gwasanaethau wedi bod yn gweithio er mwyn eu cyrraedd gan hefyd gydbwyso'r effeithiau ar ddarpariaeth gwasanaethau. Mae llawer o'r gwasanaethau hyn yn rhai statudol. Wedi eu cynnwys yn y tabl cyntaf yn Atodiad 2 mae cynigion cynnar am arbedion y mae Aelodau Arweiniol a Phenaethiaid Gwasanaeth yn ystyried eu bod wedi eu datblygu'n ddigonol. Yn yr ail dabl yn Atodiad 2 mae cynigion arbedion y mae Aelodau Arweiniol a Phenaethiaid Gwasanaeth wrthi'n gweithio arnynt i ddarparu mwy o arbedion i osod cyllideb 2025/26.

4.8. Mae llawer o ansicrwydd yn dal i fod ar hyn o bryd, a allai newid y sefyllfa ariannol. Er enghraifft, efallai y bydd rhagdybiaethau cyflog angen eu newid, gall y cyllid gan Lywodraeth Cymru newid (yn enwedig o ystyried y gyllideb ddiweddar gan Lywodraeth y DU). Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn parhau i ddatblygu cynigion arbedion y bydd angen eu hystyried ynghyd â'r holl opsiynau eraill sydd ar gael i osod cyllideb gytbwys, gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn â Chyllidebau Ysgolion, unrhyw arbedion o gyllidebau corfforaethol a Threth y Cyngor wrth i'r Cyngor nesáu at bennu ei gyllideb ar gyfer 2025/26, sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

4.9. Os nad yw sefyllfa'r cyllid gan Lywodraeth Cymru yn gwella, mae'n sicr y bydd yn rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniadau anodd er mwyn cael cyllideb gytbwys at 2025/26. Bydd y penderfyniadau anodd hynny'n golygu cynnydd yn Nhreth y Cyngor a gostyngiadau mewn rhai gwasanaethau i ariannu pwysau costau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys dyfarniadau cyflog sy'n cael eu pennu'n genedlaethol a mwy o gymhlethdod mewn gwasanaethau statudol sy'n dibynnu ar y galw amdanynt ym maes gofal cymdeithasol oedolion a phlant.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae rheoli cyllidebau'r Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn gosod y sail ar gyfer gweithgarwch ym mhob maes. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys dyraniadau i ddal i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Fel y nodir yn adroddiadau'r gyllideb hyd yma ar gyfer 2024/25. Bydd goblygiadau ariannol a goblygiadau eraill ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol yn dod yn fwy eglur wrth i ni symud strategaeth y gyllideb yn ei blaen.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Cwblhawyd Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer pob cynnig arbedion mawr wrth osod cyllideb 2024/25. Cafodd pob asesiad ei goladu a'i adolygu gan swyddogion cynllunio strategol a pherfformiad. Gwnaed hyn i amlygu unrhyw themâu a phatrymau sy'n dod i'r amlwg ac er mwyn rhoi diweddariadau rheolaidd ar yr effaith gyfanredol mewn perthynas â phob un o'r nodau lles. Byddai hyn hefyd yn dangos a oedd yr arbedion yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig penodol. Cafodd y rhain eu coladu i ffurfio Asesiad cyffredinol o Effaith ar Les ar yr holl fesurau ynghlwm â gostyngiadau i'r gyllideb.

7.2. Caiff proses debyg ei rhoi ar waith wrth bennu cyllideb 2025/26.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae Cynllun Cyfathrebu wedi'i ddatblygu ar gyfer y gyllideb er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â'r grwpiau canlynol ar yr adegau priodol: y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Tîm Arwain Strategol, y Cabinet, Arweinwyr Grŵp, holl Aelodau'r Cyngor, Fforwm Cyllidebau Ysgolion, Undebau Llafur, ein gweithwyr, busnesau lleol, a'n preswylwyr.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r Cyngor, ynghyd â phob Cyngor arall yng Nghymru, yn wynebu heriau ariannol digynsail. Nod y SATC yw sicrhau bod y Cyngor yn cyflwyno cyllidebau cytbwys yn y dyfodol. Bydd nodi'r rhagamcanion a'r strategaeth yn yr adroddiad hwn o gymorth i sicrhau bod y Cyngor yn meddu ar wybodaeth gyflawn ac yn barod i bennu cyllideb yn ystod y cyfnod heriol hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'r broses gyllidebol ynddi ei hun yn ddull o reoli risg, gyda'r nod o lunio cynigion ar gyfer y gyllideb, eu hasesu a chytuno arnynt mewn ffordd drefnus a phrydlon. Byddai peidio â chytuno ar y cynigion hyn heb gynnig cynigion posib' eraill yn golygu risg na fyddai cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26.

10.2. Mae adran fanwl ar risg wedi'i chynnwys yn y SATC yn Atodiad 3.

10.3. Fel yr amlygwyd yn flaenorol, mae risgiau o ran capasiti'r tîm Cyllid y mae angen i Aelodau fod yn ymwybodol ohonynt. Mae'r tîm yn parhau i weithio gydag Archwilio Cymru ar yr archwiliad o gyfrifon 2022/23, a hefyd ar gau cyfrifon 2023/24. Cyflwynwyd un system ariannol newydd dros 2 gam ym mis Ebrill a mis Medi, a oedd yn disodli sawl hen system ariannol oedd yn ymdrin â thaliadau, derbyniadau, y llyfr cyfrifon cyffredinol, amcangyfrifon ar gyfer y gyllideb a llunio adroddiadau. Fel sy'n wir wrth gyflwyno unrhyw system newydd sy'n effeithio ar gannoedd o ddefnyddwyr ar draws ein holl systemau ariannol, bydd yn tarfu rhywfaint ar waith pobl cyn i bethau setlo.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.